

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 17 EBRILL 2025 10:00

Presennol

Y Cyngorydd RM Granville – Cadeirydd

A R Berrow
M L Hughes

S Easterbrook
D M Hughes

H Griffiths

S J Griffiths

Presennol – O Bell

RJ Collins
J E Pratt

C L C Davies
R J Smith

M R John
A Wathan

W J Kendall
R Williams

Swyddogion:

Rhodri Davies
Gillian Dawson
Lee Evans
Mark Galvin
Robert Morgan
Jonathan Parsons
Oscar Roberts
Philip Thomas
Leigh Tuck

Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu
Lawyer - Planning
Uwch Swyddog Cynllunio
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth
Rheolwr Grŵp Datblygu
Business Administrative Apprentice - Democratic Services
Prif Swyddog Cynllunio
Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth

103. Ymddiheuriadau am absenoldeb

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 17 EBRILL 2025

Y penderfyniad a wnaed	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr DT Harrison a J Llewellyn-Hopkins.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025

104. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Datganwyd y buddiannau canlynol:- Y Cyngorydd M John – buddiant personol yn eitem 9 ar yr Agenda, fel yr Aelod Ward lleol. Y Cyngorydd R Williams – buddiant rhagfarnus yn eitem 10 ar yr Agenda, fel yr oedd yn adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd y Cyngorydd Williams y cyfarfod tra bod y cais yn cael ei ystyried. Y Cyngorydd R Granville – buddiant rhagfarnus yn eitem 10 ar yr Agenda, fel yr oedd yn adnabod yr ymgeisydd (a'i deulu). Gadawodd y Cyngorydd Granville y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon a chadeiriodd yr Is-gadeirydd yn ei le (ar gyfer yr eitem hon yn unig). Y Cyngorydd S Easterbrook – buddiant personol yn eitem 12 ar yr Agenda, gan fod ganddo aelodau o'r teulu yn byw yn ardal safle'r cais.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025

105. Ymweliadau Safle

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod dyddiad 28 Mai 2025 yn cael ei gymeradwyo ar gyfer unrhyw archwiliadau safle a godwyd yn y cyfarfod, neu a nodwyd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor gan y Cadeirydd.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025

106. Cymeradwyaeth Cofnodion

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 17 EBRILL 2025

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD:	Bod Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 23 Ionawr a 20 Chwefror 2025, yn cael eu cymeradwyo fel cofnodion gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025	

107. Siaradwyr Cyhoeddus

Y penderfyniad a wnaed	Siaradodd y siaradwyr cyhoeddus canlynol ar y ceisiadau cynllunio a enwir isod:- P/24/696/FUL – Y Cynghorydd T Thomas, (Aelod Ward), G Hutchinson (gwrthwynebydd) ac R Hathaway, (asiant yr ymgeisydd). P/24/148/FUL – A Edwards (gwrthwynebydd) ac R Hathaway (asiant yr ymgeisydd).	
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025	

108. Taflen Gwelliant

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD:	Bod y Cadeirydd yn derbyn Dalen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, a gallu ystyried sylwadau hwyr a diwygiadau y mae angen eu cynnwys.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025	

109. Canllawiau Pwyllgor Datblygiad a Rheoli

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD:	Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau'n amlinellu canllawiau i Aelodau ar faterion Rheoli Datblygu a Chynllunio.
------------------------	---------------	---

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 17 EBRILL 2025

Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025

110. P/24/652/FUL - Deolydd Maple, Heol Wern Tarw (Stryd Yr Eglwys), Rhiwceiliog

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ohirio, er mwyn gofyn am gyflwyno cynllun gweithredu a chynnal a chadw manwl (gan gynnwys amserlen ac amcangyfrif costau) ar gyfer y Gwaith Adfer Ecolegol cyn penderfynu'r cais ac i ymchwilio i'r gofyniad i sicrhau cyfraniad ariannol gan yr ymgeiswyr tuag at gydymffurfio a monitro'r Gwaith Adfer Ecolegol:- Y CYNNIG: Tair llain breswyl i deithwyr gydag ystafell ddydd/cyfleustodau, carafán statig a charafán deithiol gyda chynllun adfer ecolegol a lliniaru ecolegol, gwell mynediad, rhodfa fewnol, mannau parcio, ffensys ffiniau a gosod gwaith trin preifat.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025

111. P/24/696/FUL - Melin Bryngarw, 4 Ffordd Abergarw, Abergarw, CF32 9LH

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod yn amodol ar yr amodau sydd yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:- Y CYNNIG: Newid y defnydd o ddefnydd dosbarth C3 (tŷ annedd) i ddefnydd dosbarth 2 (Llety preswyl i bobl sydd angen gofal) ar gyfer un person. Nodyn:
------------------------	---

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 17 EBRILL 2025

	Bod Cadeirydd y Pwyllgor yn anfon llythyr at Arolygiaeth Gofal Cymru, fel a ganlyn:- 1. Dylai Arolygiaeth Gofal Cymru roi gwybod i adran Cynllunio CBSP pan fyddant yn derbyn ceisiadau am drwyddedau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. 2. Dylai Arolygiaeth Gofal Cymru wirio ymhellach gyda'r ACLI cyn cyhoeddi trwydded i wneud yn siŵr bod y caniatâd cynllunio cywir ar waith.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025

112. P/24/148/FUL - Iard Marlas A Padog, Y Pil , CF33 4PE

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: (1) Bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i: - (i) Ddarparu cyfraniad ariannol gwerth £9,690 tuag at ddarparu Ardal Chwaraeon Awyr Agored Ffurfiol i'w defnyddio i uwchraddio/gwella'r ddarpariaeth bresennol yn yr ardal leol. (ii) Darparu cyfraniad ariannol gwerth £3,619 tuag at ddarparu Man Chwarae â Chyfarpar/Man Chwarae Anffurfiol i'w ddefnyddio i uwchraddio/gwella'r ddarpariaeth bresennol yn yr ardal leol. (iii) Ddarparu cyfraniad ariannol gwerth £18,599 tuag at ddarparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r datblygiad hwn (Darpariaeth Addysg ar gyfer Meithrinfa - 1 lle ychwanegol). (2) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn cael pwerau dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad penderfynu yn rhoi caniatâd cynllunio o ran y cynnig hwn ar ôl i'r ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Adran 106 a enwyd uchod, yn amodol ar yr Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:- Y CYNNIG: Dymchwel ysgubor gwartheg a siediau moch i ganiatáu datblygiad
------------------------	---

	preswyl sy'n cynnwys cyfanswm o 17 uned. 15 uned newydd a chadw Ysguboriau Rhestredig presennol i ddarparu 2 uned breswyl, gan gynnwys llwybr Teithio Llesol, mynediad, parcio ceir, tirlunio, draenio ac arafu, a gwaith cysylltiedig.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025

113. Apeliadau

Y penderfyniad a wnaed	(1) Nodi'r apeliadau sydd wedi'u derbyn ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y manylir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. (2) Bod yr Archwilydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r apeliadau canlynol, wedi cyfarwyddo eu bod yn cael eu GWRTHOD:- (i) Apêl Rhif. – 2012 Pwnc yr Apêl – Cadw'r adeilad allanol ar wahân presennol at ddefnydd ar y cyd fel defnydd ategol i'r annedd bresennol a defnydd rhan-amser fel salon trin gwallt a harddwch: 9 Pyle Road, y Pîl. (ii) Apêl Rhif. – 2018 Pwnc yr Apêl – Cais amlinellol ar gyfer pâr o anheddau pâr: Tir yn Sycamore Close, Llidiard, Pen-y-bont ar Ogwr. (iii) Rhif Cais. - CAS-03529-X4T0G9 (2013) Pwnc yr Apêl - Cadw'r adeilad allanol i ochr yr annedd: 3 Llwyn Coch, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 5BJ (3) Bod yr Archwilydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r apêl canlynol, wedi cyfarwyddo y dylid CANIATÂU yr Apêl, yn amodol ar amodau:- Apêl Rhif. – 2017 Pwnc yr Apêl – Dileu Amod 3 (Terfynau Meddiannu) o P/19/911/RLX: Tir yn Moor Lane, Porthcawl. (4) Bod yr Archwilydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r Apêl canlynol, wedi cyfarwyddo bod yr Hysbysiad Gorfodi'n cael l i gael ei GADARNHAU:-
------------------------	--

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 17 EBRILL 2025

	Rhif Cais. - CAS-03530-T4G6Q9 (2014) Pwnc yr Apêl – Estyniad anawdurdodedig honedig: 3 Llwyn Coch, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 5BJ.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025

114. Diweddariad i Aelodau ynghylch cais gan Marubeni Europower

Y penderfyniad a wnaed	Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad i'r Pwyllgor, a'i bwrpas oedd diweddaru'r Aelodau ar benderfyniad y cais uchod. Ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad A, roedd llythyr gan Lywodraeth Cymru, tra bod Atodiad B yn cynnwys manylion Hysbysiad Penderfynu mewn perthynas â Chais Rhif P/23/218/FUL. Esboniwyd y manylion ynglŷn â'r ddau atodiad hyn yn yr adroddiad. PENDERFYNWYD: (1) Bod yr Aelodau'n nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganslo'r Cyfarwyddyd Atal. (2) Bod yr Aelodau'n nodi ymhellach fod yr Hysbysiad Penderfynu bellach wedi'i gyhoeddi.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025

115. Rhestr Hyfforddiant

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD:	Bod adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau sy'n amlinellu pynciau ar gyfer hyfforddiant Aelodau yn cael ei nodi, a nodwyd ymhellach y dylid ychwanegu'r Adolygiad o'r Cod Ymarfer at yr amserlen, yn ogystal â sesiynau ychwanegol ar bwnc Canllawiau Cynllunio Arbennig.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025	

116. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	BrysNid oedd unrhyw eitemau brys i'w trafod
Dyddiad gwneud y penderfyniad	17 Ebrill 2025